Crynodeb i gwsmeriaid

“Gweithio i roi gwerth i’n Partneriaid mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol ac ecolegol gynaliadwy”.

2003 oedd y flwyddyn lawn gyntaf i The Co-operative Bank a CIS fasnachu dan drefn Gwasanaethau Ariannol y Co-operative (CFS).

Mae CFS wedi mabwysiadu dull ‘tair llinell sylfaen’ o reoli ei fusnes. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â rhedeg y busnes mewn ffordd sy’n ceisio bodloni anghenion y Partneriaid – sef cwsmeriaid, cyfranddalwyr, staff, cyflenwyr, cymdeithas a mudiad y Co-operative – bod CFS yn cydnabod bod arno ddyletswydd i weithio mewn dull sy’n gyfrifol yn gymdeithasol ac ecolegol.

Mae CFS yn cyfeirio at hyn fel ei Ddull Datblygu Cynaliadwy ac, er mwyn cefnogi’r gwaith a wneir i geisio sicrhau cynaladwyedd, mae’n paratoi adroddiad sy’n cofnodi ei effeithiau economaidd, cymdeithasol ac ecolegol yn hollol agored. Mae Adroddiad Cynaladwyedd 2003 yn nodi perfformiad CFS yn erbyn cyfres o ddangosyddion a thargedau. Y bwriad yw rhoi darlun manwl i’r Partneriaid fel y gallant farnu perfformiad CFS. Yn fewnol, bydd yr Adroddiad, a’r gwaith ymchwil a wneir i’w gefnogi, yn cael ei ddefnyddio i helpu i hyrwyddo cynaladwyedd trwy’r busnes.

Mae Adroddiad Cynaladwyedd 2003 CFS yn adeiladu ar y traddodiadau adrodd cryf sy’n nodweddu CIS a The Co-operative Bank, sef Atebolrwydd Cymdeithasol a Phartneriaeth. Yn 2004 fe dderbyniodd CIS wobr am Adroddiad Cymdeithasol Gorau’r Deyrnas Unedig a chafodd The Co-operative Bank wobr am Adroddiad Cynaladwyedd Gorau’r Deyrnas Unedig. Mae cywirdeb y data a’r sylwadau yn yr Adroddiad wedi’u cadarnhau gan Archwilwyr Cynaladwyedd CFS, **just**assurance.

Ffeithiau Allweddol:

- Fe osododd CIS a The Co-operative Bank gyfanswm o 86 targed perfformiad i’w cyflawni yn 2003 a thu hwnt. Cyflawnwyd 43 yn llawn, gwnaed cynnydd derbyniol yn erbyn 27, ac mae 16 heb eu cyflawni hyd yma (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/indicators);

- Gosododd CFS dros 60 o dargedau newydd ar gyfer 2004 a thu hwnt, ac mae CFS yn adrodd yn erbyn 87 dangosydd – llawer ohonynt yn newydd (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/indicators/indicators);

- Mae cwsmeriaid CIS a The Co-operative Bank yn fwy bodlon nag sy’n arferol yn y diwydiant, ar gyfer set o gynhyrchion allweddol (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/deliveringvalue/personal.htm);

- Mae The Co-operative Bank yn darparu cryn dipyn yn fwy o gyllid i fusnesau bach mewn ardaloedd ‘difreintiedig’ na’r cyfartaledd yn y diwydiant (10.4% o fenthyciadau o gymharu â 3.3%) (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/deliveringvalue/corporate.htm)

- Mae 24%, neu £422 miliwn, o arian bancio ar gyfer busnes corfforaethol (benthyciadau, gorddrafftiau, ac ati) yn cael ei fuddsoddi mewn gweithgareddau sydd o fantais fawr i gymdeithas (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/deliveringvalue/corporate.htm);

- Mae 97% o drydan CFS yn dod o ffynonellau adnewyddadwy, sy'n golygu bod CFS yn un o ddeg o fusnesau mwyaf Ewrop sy'n prynu trydan adnewyddadwy. O ganlyniad, mae allyriadau carbon deuocsid yn gysylltiedig ag egni yn The Co-operative Bank wedi gostwng 91% er 1997 a 52% er 2002 yn CIS (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/ecological/energy.htm);

- Mae 70% o wastraff cyffredinol CFS un ai'n cael ei ailddefnyddio neu'n cael ei ailgylchu (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/ecological/reduce.htm);

- Yn ystod 2003 roedd cynnydd o 27% yn faint o bapur a ddefnyddiwyd gan The Co-operative Bank oherwydd y cynnydd yn nifer yr eitemau oedd yn cael eu postio at nifer fwy o gwsmeriaid ar ôl i CFS gael ei greu (gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/ecological/paper.htm); ac

- Yn ystod 2003, fe gyfrannodd 1,550 aelod o staff 2,365 diwrnod i gyrff cymunedol – sef cyfraniad amser gwerth £308,660. Mae'r buddsoddiad cyffredinol yn y gymuned fel canran o elw cyn treth yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y sector gwasanaethau ariannol, a CIS a The Co-operative Bank oedd dau o'r tri busnes mwyaf hael yn y sector.

Dylanwadu a gweithredu Am y tro cyntaf yn hanes CFS, mae'r Adroddiad yn rhoi manylion gweithgareddau lobïo polisïau cyhoeddus CIS a The Co-operative Bank, gan gynnwys, er enghraifft, eu safbwynt ynghylch materion gwasanaethau ariannol, megis darparu yswiriant mewn ardaloedd sydd mewn perygl o gael llifogydd. Dadlennir enghreifftiau hefyd ble mae CIS a The Co-operative Bank wedi ceisio hyrwyddo dibenion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, megis galw am fesurau a fyddai'n cwtogi'r fasnach mewn 'diemwntau gwrthdaro' neu hyrwyddo'r defnydd o 'gemegau diogelach'. Mae'r datblygiad hwn yn cael ei gefnogi gan un o'r prif sylwebyddion amgylcheddol Jonathon Porritt, sy'n dweud: "Dyma ddatblygiad sy'n mynd i'r afael â rhywbeth sydd o bryder mawr i gyrff anllywodraethol. Mae yna lawer gormod o lobïo corfforaethol o hyd sy'n anghyson â pholisïau a gobeithion penodol y cwmnïau, a byddai'n dda gweld cwmnïau eraill yn dilyn esiampl CFS." Dan faner 'Dylanwadu a gweithredu' fe roddir manylion am weithgareddau lobïo polisïau cyhoeddus CFS drwy gydol yr Adroddiad.

Cyllid Moesegol Mae The Co-operative Bank yn gweithredu Polisi Moesegol sy'n pennu ble bydd yn buddsoddi arian cwsmeriaid, a ble na fydd yn gwneud hynny. Yn ôl **just**assurance, gall y banc fod yn hollol dawel ei feddwl o ran y ffordd y gweithredwyd y Polisi Moesegol yn 2003. Yn ystod 2003, fe ymwrthodwyd ag incwm o bron i £7 miliwn o ganlyniad i wrthod busnes ar ôl ymgynghori ag Uned Polisi Moesegol y banc. Ymhlith y busnes a wrthodwyd roedd: cwmni cynhyrchu olew, gwneuthurwr deunydd pecynnu a gwerthwr coed. Yn 2003, datblygwyd prosiect i gysoni dulliau CIS a The Co-operative Bank o sicrhau Buddsoddi Cymdeithasol Gyfrifol, sydd wedi bod yn dra gwahanol yn y gorffennol. Bydd y cysoni'n canolbwyntio ar sefydlu mandad clir i gwsmeriaid ar gyfer polisïau Cyfranddaliadau Cyfrifol CIS, yn debyg iawn i'r ffordd mae cwsmeriaid banc yn llywio ei fuddsoddiad moesegol ar hyn o bryd. Gweler www.cfs.co.uk/sustainability2003/socialresponsibility/ethical.htm

Cynhyrchion a gwasanaethau moesegol / ecolegol Yn ddiweddar fe lansiodd CFS nifer o gynhyrchion a gwasanaethau sydd â dimensiwn moesegol neu ecolegol penodol, gan gynnwys:

- cardiau credyd Visa â pherthynas gyda: Cymorth Cristnogol, Y Care International, y Sefydliad Meddygol dros Ofalu am Ddioddefwyr Artaith, Y Cynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon ac Undeb y Mamau
- Unedau Buddsoddi Dilyn y FTSE4Good – cronfa unedau buddsoddi sy'n 'dilyn' mynegai FTSE4Good y DU (cwmnïau sy'n bodloni safonau penodedig mewn tri maes: cynaladwyedd amgylcheddol, iawnderau dynol, a pherthynas â budd-ddeiliaid)
- datblygu mwy ar fuddsoddiad moesegol **smile**invest
- cynhyrchion Morgais Gwyrdd newydd, sy'n cynnig Cyfradd Ynni Cartref am ddim wrth brynu tai, a nodwedd 'gosod yn erbyn' CO_2

Gweler: www.cfs.co.uk/sustainability2003/socialresponsibility/tailored.htm a www.cfs.co.uk/Sustainability2003/ecological/tailored.htm

Ymateb Mae CFS yn ymroi i wella ei berfformiad ym maes cynaladwyedd mewn ffordd a fydd yn parhau i gydbwyso buddiannau ei chwe Phartner â buddiannau'r gymdeithas a'r amgylchedd. Rydym yn awyddus i glywed eich barn am y ffordd rydym yn ymdrin â datblygu cynaliadwy ac yn awyddus i chi rannu eich syniadau gyda ni am ffyrdd o ddatblygu hyn ymhellach. Os hoffech ymateb ar lein, ewch i'r dudalen ymateb www.cfs.co.uk/sustainability2003/feedback/. Neu, anfonwch neges e-bost at sustainability@cfs.co.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Datblygu Cynaladwyedd, Gwasanaethau Ariannol y Co-operative, 1 Balloon Street, Manceinion, M60 4EP.